Archwilio Cymru
Audit Wales

# Ailgylchu a Rheoli Gwastraff yn Wrecsam

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Ionawr 2026

# Amdanom ni

Rydym wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn dan y dyletswyddau a'r pwerau yn Adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac Adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.


### © Archwilydd Cyffredinol Cymru 2025

Gallwch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir a rhaid i chi beidio â gwneud hynny mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid i'r deunydd gael ei gydnabod fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle'r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd y mae'r hawlfraint ynddo'n eiddo i drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.


### Os oes arnoch angen unrhyw help gyda'r ddogfen hon

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, neu os oes arnoch angen unrhyw un neu rai o'n cyhoeddiadau mewn fformat neu iaith arall:

- ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- anfonwch neges e-bost atom yn post@archwilio.cymru

Gallwch ddefnyddio Cymraeg neu Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – fe ymatebwn ninnau i chi yn yr iaith a ddefnyddir gennych chi.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cipolwg ar yr archwiliad | 4 |
| Ffeithiau a ffigyrau allweddol | 7 |
| Ein canfyddiadau | 10 |
| Argymhellion | 14 |
| Atodiadau | 16 |
| 1 Ynglŷn â'n gwaith | 17 |

# Cipolwg ar yr archwiliad

## Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno

1 Fe wnaethom asesu trefniadau'r Cyngor ar gyfer ailgylchu a rheoli gwastraff, i ddeall a ydynt yn cyrraedd targedau ailgylchu cenedlaethol ac yn darparu gwerth am arian i drigolion.

## Pam fod hyn yn bwysig

2 Mae Cynllun y Cyngor 2023-2028 yn nodi chwe maes blaenoriaeth. Y maes blaenoriaeth cyntaf yw 'Darparu Gwasanaethau Strydlun Effeithlon a Datgarboneiddio Ein Hamgylchedd' sy'n cynnwys y deilliant 'Mae'r holl aelwydydd yn Wrecsam yn cael eu cynorthwyo i ymwneud yn weithredol â gweithio tuag at ddyfodol diwastraff'. Fe ddatganodd y Cyngor Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol hefyd ym mis Medi 2019.

3 Ochr yn ochr â hyn, mae strategaeth wastraff Llywodraeth Cymru – Tuag at Ddyfodol Diwastraff – yn nodi ei pholisïau a thargedau lefel uchel ar gyfer rheoli gwastraff yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys targedau ailgylchu blynyddol statudol i'r Cyngor eu cyrraedd. I wireddu'r uchelgeisiau lleol a chenedlaethol hyn, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i reoli gwastraff ac ailgylchu, a chynorthwyo trigolion i weithio tuag at ddyfodol diwastraff.

4 Mae perfformiad ailgylchu blynyddol y Cyngor wedi dirywio mewn tair o'r pedair blynedd ddiwethaf yr adroddwyd arnynt. O ffigwr o 69.6% yn 2019-20 (y bumed gyfradd uchaf ar gyfer yr holl gynghorau yng Nghymru), fe ostyngodd cyfradd ailgylchu'r Cyngor i 63.8% yn 2023-24 (y bedwaredd gyfradd isaf ar gyfer yr holl gynghorau yng Nghymru).

5 Fe gododd targed ailgylchu statudol Llywodraeth Cymru o 64% hyd at 2023-24 i 70% o 2024-25 ymlaen. Yn y dyfodol, mae’r Cyngor yn wynebu risg i’w enw da a risg ariannol o gael dirwy gan Lywodraeth Cymru os bydd yn parhau i beidio â chyrraedd y targed hwn. Mae gan y Cyngor amcanion corfforaethol sy’n ymwneud â chynaliadwyedd a datgarboneiddio hefyd a’r rheiny’n gysylltiedig â’i allu i wella ei berfformiad ailgylchu.

## Yr hyn yr ydym wedi'i ganfod

6 Mae'r Cyngor yn wynebu heriau mewn rhannau o'i wasanaethau gwastraff ac ailgylchu. Nid yw'n deall yn llawn pam fod cyfraddau ailgylchu wedi dirywio dros y blynyddoedd diwethaf ac mae'n wynebu heriau i adnabod a yw'r gwasanaeth yn darparu gwerth am arian o'i gymharu â chynghorau eraill.

7 Mae gan y Cyngor gynllun cyfathrebu ac mae'n ymgysylltu'n rheolaidd â thrigolion ynghylch newidiadau dros dro i ddyddiadau casglu a hynny'n llwyddiannus. Fodd bynnag, mae trigolion yn parhau i lenwi biniau gwastraff gweddillol â deunyddiau ailgylchadwy, ac ar hyn o bryd nid oes gan y gwasanaeth ddull strategol mabwysiedig o wella ei berfformiad ailgylchu.


## Yr hyn yr ydym yn ei argymell

8 Rydym wedi gwneud dau argymhelliad, sy'n ymwneud â datblygu dull strategol a gwella dealltwriaeth y Cyngor am werth am arian o'r gwasanaeth.

# Ffeithiau a ffigyrau allweddol

- Yn y flwyddyn ddiwethaf yr adroddwyd arni, 2023-24, methodd y Cyngor â chyrraedd targed statudol Llywodraeth Cymru o 0.2 pwynt canran.[1] Fodd bynnag, mae perfformiad wedi dirywio mewn tair o'r pedair blynedd ddiwethaf yr adroddwyd arnynt ac fe gynyddodd targed Llywodraeth Cymru i 70% ar gyfer 2024-25.


**Arddangosyn 1: cyfraddau ailddefnyddio/ailgylchu/compostio blynyddol fesul cyngor**




[1] Data gan StatsCymru a Llywodraeth Cymru

- Yn 2025, Wrecsam oedd â'r capasiti gwastraff gweddillol cydradd uchaf yr aelwyd o blith holl gynghorau Cymru, sef 120 o litrau'r wythnos.[2]


**Arddangosyn 2: Capasiti gwastraff gweddillol yr aelwyd yng Nghymru, fesul Cyngor**




[2] Data gan WRAP Cymru, Mehefin 2025

- Yn 2023-24, roedd cyfanswm gwariant net Wrecsam ar wasanaethau gwastraff aelwydydd yn £393 yr aelwyd. Y ffigwr hwn oedd yr uchaf yng Nghymru ac roedd £109 yr aelwyd yn uwch na'r ffigwr uchaf nesaf.[3]

**Arddangosyn 3: Cyfanswm gwariant net yr aelwyd, ar wasanaethau gwastraff aelwydydd 2023-24**




[3] Mae'r ffigwr hwn yn cynnwys costau sy'n gysylltiedig â Menter Cyllid Preifat (PFI). Gweler **paragraff 20** am ragor o wybodaeth.

# Ein canfyddiadau

## Nid yw'r Cyngor yn deall yn llawn beth yw'r rhesymau dros amrywiadau yn ei gyfradd ailgylchu

9 Mae'r Cyngor yn monitro sut y mae ei wasanaeth ailgylchu'n perfformio. Mae'n adrodd ar y gwahanol ffrydiau casglu ac yn cynnal arolygon wrth ymyl y ffordd. Mae'r Cyngor hefyd yn monitro cyfraddau ailgylchu yn ei dair Canolfan Ailgylchu Gwastraff Cartrefi. Adroddir ar y data yn fewnol ac wrth Lywodraeth Cymru. Mae'r Cyngor yn ymwybodol bod cyfraddau ailgylchu wedi dirywio ar ôl 2016-17, ac mae Llywodraeth Cymru wedi anfon llythyr rhybuddio. Mae methu â chyrraedd targedau statudol a bennwyd gan Lywodraeth Cymru'n gadael y Cyngor yn agored i risgiau ariannol. Mae'r Cyngor wedi cydnabod dirwyon posibl gan Lywodraeth Cymru yn ôl cyfradd o £200 y dunnell am beidio â chyrraedd targedau statudol, a allai olygu bod y Cyngor yn cael dirwy o £753,948 yn 2024-25.

10 Nid oes gan y Cyngor sylfaen dystiolaeth gadarn i ategu'r esboniadau a awgrymir ganddo ar gyfer y gostyngiadau mewn cyfraddau ailgylchu rhwng 2016-17 a 2023-24, sy'n cynnwys newidiadau yn arferion trigolion, effeithiau tymhorol a gweithredu diwydiannol. Er enghraifft, pan gyflwynwyd taliadau am wastraff gwyrdd, tybid y gallai hyn fod yn ffactor, ond mae'r data'n dangos bod ailgylchu gwastraff gwyrdd wedi dychwelyd i lefelau cynharach ers hynny. Gan bod dealltwriaeth y Cyngor yn seiliedig yn bennaf ar dystiolaeth anecdotaidd a barn staff sy'n amrywio weithiau, gall ei chael hi'n anodd cymryd y camau gweithredu mwyaf effeithiol i wella cyfraddau ailgylchu a gall brofi anhawster cyrraedd targedau statudol.

11 Mae'r Cyngor yn rheolaidd yn cymharu ei berfformiad ailgylchu â chynghorau eraill Cymru gan ddefnyddio data cenedlaethol. Mae'r Cyngor yn gwybod ei safle yn lleol ac yn genedlaethol, ond nid yw'n defnyddio'r wybodaeth hon wrth ystyried newidiadau i'r gwasanaeth. Gall meincnodi helpu'r Cyngor i adnabod arfer da i'w helpu i gyflawni ei amcanion. Er enghraifft, mae modelu annibynnol WRAP yn dynodi y gallai'r Cyngor godi ailgylchu a lleihau costau trwy newid y gwasanaeth gwastraff gweddillol, yn unol â dulliau a ddefnyddir mewn rhannau eraill o Gymru.

12 Mae cynghorau eraill mewn sefyllfa debyg i Wrecsam (perfformiad y gwasanaeth yn dirywio, ddim yn cyrraedd targedau Llywodraeth Cymru, yn wynebu risg o gosbau ariannol) wedi gwella perfformiad a gweithredu newid i'r gwasanaeth trwy amrywiaeth o ddulliau, megis newid mynychder casgliadau, gweithredu mesurau gorfodi a chynyddu capasiti gwastraff bwyd.

## Ceir diffyg eglurder a chostiadau mewn strategaethau gwastraff ac ailgylchu

13 Yn flaenorol mae'r Cyngor wedi gallu cyrraedd targedau ailgylchu cenedlaethol, ond ar hyn o bryd ceir diffyg eglurder a manylder yn ei strategaethau a'i gynlluniau. Er bod Cynllun y Cyngor (2023-2028) a Chynllun Datgarboneiddio yn bodoli ac yn cynnwys uchelgais i gyrraedd cyfradd ailgylchu o 70% erbyn 2025, nid yw'r dogfennau hyn yn nodi sut y bydd hyn yn cael ei gyflawni. Nid yw'r Cynllun Datgarboneiddio, er enghraifft, wedi cael ei ddiweddaru ers 2021 ac nid yw'n cynnwys camau gweithredu na chostau penodol.

14 Mae'r Cyngor yn gweithio ar Strategaeth Wastraff newydd sy'n cynnwys saith amcan. Yn ystod ein gwaith maes, nid oedd gan y Cyngor gynllun gweithredu wedi'i gostio'n llawn i ategu newid a gwelliant yn y gwasanaeth. Os na chaiff y strategaeth ei chostio'n llawn, gallai arwain at fethu â chyrraedd nodau a cholli cyfleoedd i wella.

15 Mae'r Cyngor wedi cymryd camau i gydymffurfio â rheolau cenedlaethol newydd ar wastraff annomestig, a ddechreuodd ym mis Ebrill 2024. Dengys tystiolaeth fod y Cyngor yn cydymffurfio â'r rheoliadau, sy'n golygu bod busnesau ac adeiladau cyhoeddus wedi'u cynnwys yn eu gwasanaeth. Golyga hyn fod y Cyngor wedi lliniaru'r risg o gael cosbau am ddiffyg cydymffurfio ac y gall adeiladu ar y newidiadau hyn ar gyfer gwelliant pellach.

## Mae'r Cyngor yn deall pwysigrwydd ymgysylltu llwyddiannus

16 Mae ymgysylltiad yn weithredol ac mae'r Cyngor yn cysylltu ag aelwydydd, busnesau a phobl ifanc i hyrwyddo ailgylchu a chynaliadwyedd. Fodd bynnag, dim ond tîm bach sy'n gweithio ar ymgysylltu, ac mae'n aneglur faint o adnoddau fydd yn cael eu neilltuo i ymgysylltu yn y dyfodol.

17 Gallai datblygu dull strategol o ymgysylltu i ategu newidiadau i wasanaethau gwastraff ac ailgylchu wella gallu'r Cyngor i gael effaith gadarnhaol ar gyfraddau ailgylchu a pherfformiad y gwasanaeth ar y cyfan.

## Mae'r Cyngor yn wynebu rhwystrau i feincnodi cost ei wasanaethau gwastraff ac ailgylchu

18 Mae trefniant Menter Cyllid Preifat (PFI) y Cyngor i ariannu ei wasanaeth gwastraff yn ei gwneud hi'n anodd adnabod cost-effeithiolrwydd y gwasanaeth ar hyn o bryd, ac i'r Cyngor gymharu ei gost-effeithiolrwydd â chost-effeithiolrwydd cynghorau eraill. Mae'r contract yn rhedeg tan 2038, ac mae'r Cyngor yn adolygu'r gost a pherfformiad yn flynyddol.

19 Mae’r Cyngor yn monitro gwariant ar wasanaethau gwastraff trwy brosesau ariannol arferol. Mae tystiolaeth gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) yn awgrymu mai gwasanaeth gwastraff Wrecsam yw’r drutaf yng Nghymru ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae peth o’r data ynghylch costau a ddarparwyd gan y Cyngor ar gyfer CLlLC yn cynnwys elfennau o’i gytundeb PFI y rhoddir cyfrif amdanynt yn wahanol gan eraill sydd heb gontract o’r fath. Mae’r Cyngor wedi cychwyn ar y broses o geisio datblygu costau cymaradwy ar gyfer ei wasanaeth y gellir eu meincnodi â chynghorau eraill.

20 Nid yw drafft cyfredol y strategaeth wastraff yn crybwyll cost gwasanaethau na gwerth am arian. Mae’r gyllideb flynyddol ar gyfer gwastraff yn parhau i gynyddu, ac mae costau yr aelwyd yn dal i gynyddu, tra bo elfennau o berfformiad y gwasanaeth yn dal i fod islaw targed Llywodraeth Cymru. Mae cynlluniau wedi’u costio a mesurau o lwyddiant wedi’u cynllunio yn gwella gallu’r Cyngor i gael sicrwydd ei fod yn cyflawni gwerth am arian.

# Argymhellion

**A1** Cryfhau gweithgarwch dadansoddi a meincnodi ar sail tystiolaeth

Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn dibynnu ar dystiolaeth anecdotaidd a barn staff i egluro amrywiadau yn ei berfformiad ailgylchu, sy'n cyfyngu ar ei allu i gymryd camau gweithredu effeithiol ac wedi'u targedu. Er ei fod yn monitro perfformiad ac yn cymharu ei hun â chynghorau eraill, nid oes ganddo ffigyrau meincnodi dibynadwy. Bydd cryfhau'r sylfaen dystiolaeth yn helpu'r Cyngor i dargedu ei ymdrechion lle mae eu hangen ac i ddeall yn well sut i wella ei berfformiad ailgylchu. Dylai'r Cyngor wneud hyn trwy'r canlynol:

**1.1** datblygu fframwaith cadarn i adnabod achosion sylfaenol newidiadau mewn perfformiad;

**1.2** datblygu ffigyrau cymaradwy i ddeall cost ei wasanaeth yn erbyn Cynghorau eraill yng Nghymru; a

**1.3** defnyddio'r wybodaeth hon i oleuo proses dylunio gwasanaethau'r Cyngor.

**A2** Creu strategaeth wastraff integredig ac wedi’i chostio

Ceir diffyg eglurder, costiadau ac integreiddio yng nghynlluniau cyfredol y Cyngor, sy’n creu risg bod gweithgarwch yn dameidiog ac yn cael llai o effaith nag a fyddai’n bosibl. Dylai’r Cyngor ddatblygu strategaeth gwastraff ac ailgylchu gynhwysfawr sy’n cynnwys:

**2.1** camau gweithredu i gynorthwyo’r Cyngor i gyflawni blaenoriaethau corfforaethol a chyrraedd targedau statudol;

**2.2** costiadau manwl ac arwydd o’r adnoddau gofynnol ar gyfer yr holl weithgarwch; a

**2.3** llinell amser a dangosyddion perfformiad i dracio cynnydd.

# Atodiadau

# 1 Ynglŷn â'n gwaith

## Cwmpas yr archwiliad

Fe wnaeth yr archwiliad hwn adolygu dull y Cyngor o reoli ei wasanaeth gwastraff ac ailgylchu yn strategol ac yn weithredol, gan ganolbwyntio ar ddeall perfformiad, cynllunio strategol a gwerth am arian lle mae ailgylchu yn y cwestiwn.

## Cwestiynau a meini prawf yr archwiliad

### Cwestiynau

Fe wnaethom fwrw golwg ar ddealltwriaeth y Cyngor am berfformiad ei wasanaeth, pa un a oes ganddo strategaeth a chynlluniau eglur i ymateb i dargedau ailgylchu cenedlaethol, a sut y mae'n asesu'r gwerth am arian a ddarperir gan y gwasanaeth.

### Meini prawf

Roedd ein meini prawf yn cynnwys asesu ymwybyddiaeth y Cyngor o'r ffactorau mewnol ac allanol sy'n effeithio ar ei berfformiad, y strategaethau a'r cynlluniau sydd ganddo i roi cymorth i ddatblygu'r gwasanaeth, ei ymgysylltiad â thrigolion a phartneriaid, a sut y mae'n monitro ac yn adolygu cost darparu'r gwasanaeth.

## Dulliau

Fe wnaethom adolygu ystod o ddogfennau a ddarparwyd gan y Cyngor a chyfweld â swyddogion ac Aelodau sy'n ymwneud â'r gwasanaeth.

# Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio cyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â chyfrifon cynghorau a chyrff eraill mewn llywodraeth leol, ac adrodd ar y rhain. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd ar ddefnydd y sefydliadau hyn o adnoddau ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gyda chymorth staff ac adnoddau eraill gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n gorff a sefydlwyd i gefnogi'r Archwilydd Cyffredinol, ei gynghori a monitro ei waith.

Archwilio Cymru yw'r term ymbarél a ddefnyddir ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân a chanddynt y rolau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.